



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2018 Rhif 277 (Cy. 53)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Benthyciadau  
at Radd Feistr Öl-raddedig)  
(Cymru) (Diwygio) 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Öl-raddedig) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), sy'n darparu ar gyfer gwneud benthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n ymgymryd â chyrsiau gradd feistr Öl-raddedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2017.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r cyfnod hwyaf y caniateir i gwrs rhan-amser bara er mwyn gallu cael ei ddynodi at ddibenion Rheoliadau 2017.

Mae rheoliad 4 yn cynyddu swm y benthyciad sydd ar gael.

Nid yw'r diwygiadau ond yn gymwys i'r ddarpariaeth o fenthyciadau mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2018 No. 277 (W. 53)**

**EDUCATION, WALES**

The Education (Postgraduate Master's Degree Loans) (Wales) (Amendment) Regulations 2018

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Education (Postgraduate Master's Degree Loans) (Wales) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations"), which provide for the making of loans to students who are ordinarily resident in Wales undertaking postgraduate master's degree courses that begin on or after 1 August 2017.

Regulation 3 amends the maximum duration of a part-time course if it is to be capable of being designated for the purposes of the 2017 Regulations.

Regulation 4 increases the amount of loan available.

The amendments apply only to the provision of loans in respect of a course beginning on or after 1 August 2018.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2018 Rhif 277 (Cy. 53)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Öl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018

Gwnaed 27 Chwefror 2018

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 7 Mawrth 2018

Yn dod i rym 19 Ebrill 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, dehongli, cychwyn a chymhwysyo**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Öl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2018.

2018 No. 277 (W. 53)

EDUCATION, WALES

The Education (Postgraduate Master's Degree Loans) (Wales) (Amendment) Regulations 2018

Made 27 February 2018

Laid before the National Assembly for Wales 7 March 2018

Coming into force 19 April 2018

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 22 and 42(6) of the Teaching and Higher Education Act 1998(1), and now exercisable by them(2), make the following Regulations:

**Title, interpretation, commencement and application**

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Postgraduate Master's Degree Loans) (Wales) (Amendment) Regulations 2018.

(1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257 a Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76 ac O.S. 2013/1881. Gweler adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwned â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), gydag is-adrannau (a), (c) a (k) yn arferadwy ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(1) 1998 c. 30; section 22 was amended by the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 146 and Schedule 11, the Income Tax (Earnings and Pensions) Act 2003 (c. 1), Schedule 6, the Finance Act 2003 (c. 14), section 147, the Higher Education Act 2004 (c. 8), sections 42 and 43 and Schedule 7, the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), section 257 and the Education Act 2011 (c. 21), section 76 and S.I. 2013/1881. See section 43(1) of the Teaching and Higher Act 1998 for the definition of "prescribed" and "regulations".

(2) The Secretary of State's functions in section 22(2)(a) to (i) and (k) were transferred to the National Assembly for Wales so far as they relate to making provision in relation to Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 (c. 8), with subsections (a), (c) and (k) being exercisable concurrently with the Secretary of State. The Secretary of State's functions in section 42 was transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, article 2, Schedule 1 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “Rheoliadau 2017” yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(1).

(3) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 19 Ebrill 2018.

(4) Nid yw’r Rheoliadau hyn ond yn gymwys mewn perthynas â'r ddarpariaeth o gymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018, pa un a gaiff unrhyw beth a wneir o dan Reoliadau 2017 ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

## Diwygio Rheoliadau 2017

2. Mae Rheoliadau 2017 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

3. Yn rheoliad 4 (cyrsiau dynodedig), yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) At ddiben paragraff (1)(a) rhaid i'r cwrs fod yn un o'r canlynol—

(a) cwrs llawnamser sy'n para un flwyddyn academaidd neu ddwy flynedd academaidd; neu

(b) cwrs rhan-amser y mae fel arfer yn bosibl ei gwblhau mewn cyfnod o hyd at bedair flynedd academaidd.”

4. Yn rheoliad 12 (swm benthyciad at radd feistr ôl-raddedig), yn y ddau le y mae'n digwydd, yn lle “£10,280” rhodder “£13,000”.

(2) In these Regulations, “the 2017 Regulations” means the Education (Postgraduate Master’s Degree Loans) (Wales) Regulations 2017(1).

(3) These Regulations come into force on 19 April 2018.

(4) These Regulations apply only in relation to the provision of support to students in respect of a course which begins on or after 1 August 2018, whether anything done under the 2017 Regulations is done before, on or after 1 August 2018.

## Amendment of the 2017 Regulations

2. The 2017 Regulations are amended in accordance with regulations 3 and 4.

3. In regulation 4 (designated courses), for paragraph (2) substitute—

“(2) For the purpose of paragraph (1)(a) the course must be one of the following—

(a) a full-time course of one or two academic years' duration; or

(b) a part-time course which is ordinarily possible to complete in up to four academic years.”

4. In regulation 12 (amount of postgraduate master’s degree loan), in both places where it occurs for “£10,280” substitute “£13,000”.

*Kirsty Williams*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o  
Weinidogion Cymru  
27 Chwefror 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers  
27 February 2018

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169).

(1) S.I. 2017/523 (W. 109), amended by S.I. 2017/712 (W. 169).

**2018 Rhif 277 (Cy. 53)**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Benthyciadau  
at Radd Feistr Ôl-raddedig)  
(Cymru) (Diwygio) 2018

**2018 No. 277 (W. 53)**

**EDUCATION, WALES**


The Education (Postgraduate  
Master's Degree Loans) (Wales)  
(Amendment) Regulations 2018

£4.25

W201802271030 03/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/277>

ISBN 978-0-348-20216-8



9 780348 202168